**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL) - DYDD LLUN, 14 RHAGFYR 2020 DYDD LLUN, 14 RHAGFYR 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
M. Day
J. Hill
C. Meredith
K. Pritchard
T. Smith
B. Thomas
G. Thomas
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT NEU ODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>RHESTR CEISIADAU AM DRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI A HUR PREIFAT</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r sylwadau a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, i bwyso a mesur popeth bod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad, yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o drafodaeth gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu, yn cynnwys:<br><br>**<u>Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hur Preifat</u>**<br>**<u>Trwydded Rhif 234</u>**<br><br>Cyflwynwyd yr Ymgeisydd i Swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, dywedodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu fod yr ymgeisydd wedi dal trwydded am flynyddoedd lawer a'r achos gerbron y Pwyllgor oedd penderfynu os oedd y deiliad trwydded yn berson addas a chywir i ddal trwydded.<br><br>Rhoddodd y Rheolwr Tîm drosolwg o honiadau a wnaed i'r Tîm Trwyddedu. Dywedwyd y cafodd yr honiadau hyn eu trafod gyda'r deiliad trwydded oedd hefyd â phryderon, fodd bynnag roedd y deiliad trwydded wedi methu codi y pryderon hyn gyda'r Tîm Trafnidiaeth neu'r Tîm Trwyddedu. | |

Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd i gyflwyno ei achos.

Dywedodd yr Ymgeisydd fod achlysuron pan gynigid rhoddion o felysion neu siocledi ac os y'u gwrthodwyd byddai'r teithiwr yn flin. Ychwanegodd yr Ymgeisydd fod y teithiwr wedi gofyn iddo brynu melysion iddynt a bod yr Ymgeisydd wedi gwrthod. Roedd y teithiwr hefyd wedi gadael nodiadau iddo.

Ar wahoddiad y Cadeirydd rhoddodd yr Ymgeisydd ei resymau pam na ddylai'r Pwyllgor ddiddymu ei drwydded. Dywedodd yr Ymgeisydd iddo ddal trwydded am flynyddoedd lawer ac nad oedd wedi gwneud dim o'i le. Ychwanegodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cymryd yr ymddygiad yn ysgafn ac felly nad oedd yn teimlo fod angen iddo roi adroddiad am y mater.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau ar y pwynt hwn.

Codwyd nifer o gwestiynau gan Aelodau yng nghyswllt yr hyfforddiant a gafodd yr Ymgeisydd, y rheswm nad oedd unrhyw hebryngydd ar deithiau gyda'r Ymgeisydd a'r teithiwr ifanc a gweithredu gan yr Heddlu ar yr honiadau. Gofynnwyd i'r Ymgeisydd hefyd pa mor hir y bu ganddo drwydded ac os bu unrhyw gwynion tebyg o'r blaen. Roedd Aelodau hefyd wedi gofyn am adborth o gyfarfodydd PSM a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr ysgol, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu.

Atebodd yr Ymgeisydd a'r Swyddogion y cwestiynau.

Gadawodd yr Ymgeisydd a'r Swyddogion Trwyddedu y cyfarfod ar y pwynt hwn i Aelodau ystyried y cais.

Trafododd y Pwyllgor y cais yn faith a gwnaed penderfyniad, a gwahoddwyd yr Ymgeisydd a'r Swyddogion yn ôl i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Aelodau wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r cais a gofynnodd i'r Cyfreithiwr ddarllen penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu, fel sy'n dilyn:-

Daeth Adran Trwyddedu y Cyngor â'r mater gerbron y Pwyllgor ar gyfer adolygu Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni ar gyfleuster cyfarfod Teams. Roedd y Swyddog Trwyddedu wedi annerch aelodau a'u hysbysu y cynhaliwyd PSM ar 13 Tachwedd 2020 ac yn ystod y cyfarfod hwnnw hysbyswyd y rhai'n bresennol fod y ferch ifanc oedd yn cael ei chludo i ac o'r ysgol gan yr Ymgeisydd wedi gwneud sylwadau anaddas wrth ei hathro a hefyd yn ddilynol i Weithiwr Cymdeithasol.

Roedd y plentyn dros gyfnod wedi rhoi neu geisio rhoi melysion a theisennau i'r Ymgeisydd oherwydd y teimlai'n flin drosto. Roedd y plentyn hefyd wedi gwneud fod yr honiadau fod yr Ymgeisydd wedi ceisio dal ei llaw.

Anerchodd yr Ymgeisydd y Pwyllgor a dywedodd fod y ferch ifanc yn flin pan wrthododd y cynnig o swyddi a theisennau. Dywedodd yr Ymgeisydd iddo fod efallai ychydig yn naïf yng nghyswllt yr ymddygiad ond mynnodd nad oedd wedi gwneud dim o'i le ac mai gyrru tacsis oedd ei fywoliaeth.

Esboniodd y Swyddog Trwyddedu wrth Aelodau, Swyddogion a'r Ymgeisydd y gallent naill ai:-

- Peidio cymryd unrhyw gamau gweithredu;
- Peidio cymryd unrhyw gamau gweithredu a rhoi rhybudd yng nghyswllt,
- Diddymu'r drwydded.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth ofalus i'r sylwadau a wnaed iddynt gan y Swyddog Trwyddedu a rhoi ystyriaeth i faterion a gynhwysir o fewn llyfryn gwybodaeth a chanllawiau y Cyngor, yn cynnwys amodau'n ymwneud â Thrwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hur Preifat.

Fe wnaethant hefyd roi ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth wirioneddol o'u blaen fel y cynghorwyd. Roedd y Pwyllgor o'r farn fod yr ymgeisydd yn parhau i fod yn 'berson 'addas a chywir' i ddal Trwydded Cerbyd Hacni. Serch hynny, roedd y Pwyllgor yn dal i fod â phryderon difrifol am y digwyddiad ac felly rhoddwyd rhybudd yng nghyswllt ymddygiad yn y dyfodol.

Mewn pleidlais, felly

PENDERFYNWYD bod y deiliad trwydded yn cadw ei Drwydded

Gyrrwr Cerbyd Hacni er y rhoddir rhybudd yng nghyswllt ymddygiad yn y dyfodol.

**<u>Gyrrwr Cerbyd Hacni/ Hur Preifat</u>**
**<u>Trwydded Rhif 042</u>**

Cyflwynwyd yr ymgeisydd i Swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor.

Ar wahoddiad y Cadeirydd dywedodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu y bu'r ymgeisydd yn Ddeiliad Trwydded am flynyddoedd lawer ac mai'r achos gerbron y Pwyllgor i benderfynu os yw'r Deiliad Trwydded yn berson addas a chywir i ddal trwydded.

Rhoddodd y Rheolwr Tîm drosolwg o ddigwyddiad ym mis Medi a'r ymchwiliadau dilynol. Dywedwyd hefyd fod yr Ymgeisydd wedi methu mynychu cyfarfodydd oherwydd problemau personol.

Yna gwahoddodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd i gyflwyno ei achos.

Rhoddodd yr Ymgeisydd adroddiad o'r digwyddiadau a ddigwyddodd pan gafodd teithiwr a oedd dan ddylanwad alcohol a chyffuriau ei riportio i'r Heddlu a'r Tîm Trwyddedu gan yr Ymgeisydd. Esboniodd yr Ymgeisydd sut y teimlai ac nad oedd wedi medru mynychu cyfarfodydd oherwydd problemau iechyd meddwl. Esboniodd yr Ymgeisydd ei ofn yn ystod yr ymosodiad a bod cyfle gyda chysylltiad mor agos o ddal feirws Covid-19 a dywedodd fod angen iddo amddiffyn ei hun rhag yr ymosodiad.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Ymgeisydd pam y teimlai na ddylai'r Pwyllgor ddiddymu ei drwydded. Dywedodd yr Ymgeisydd iddo fod yn yrrwr tacsi am flynyddoedd lawer a dywedodd ei fod eisiau cwblhau'r daith oherwydd ei fod yn poeni am ei ddiogelwch ei hun.

Dangosodd yr Ymgeisydd gopïau o lythyrau i'r Pwyllgor o achosion blaenorol nad oedd wedi arwain at golli trwyddedau ac esboniodd y Cadeirydd fod y cyfarfod am ymddygiad yr Ymgeisydd ac y byddai penderfyniad yn cael ei wneud ar sail y dystiolaeth o'u blaen. Ychwanegodd yr Ymgeisydd iddo weithio oriau hir tan 3-4am i sicrhau fod y cwsmeriaid yn ddiogel.

Darllenodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu ohebiaeth a dderbyniwyd i gefnogi'r Ymgeisydd a ddywedodd fod yr Ymgeisydd bob amser

wedi bod yn yrrwr tacsi da iawn ac a aeth yr ail filltir i sicrhau fod y cwsmer yn cael yr hyn oedd angen.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau ar y pwynt hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau yn ymwneud ag adroddiad yr heddlu, digwyddiadau noswaith yr ymosodiad a'r rhesymau pam y cymerwyd camau o'r fath.

Cafodd y cwestiynau eu hateb gan yr Ymgeisydd a'r Swyddog.

Gadawodd yr Ymgeisydd a'r Swyddogion Trwyddedu y cyfarfod a y pwynt hwn i Aelodau ystyried y cais.

Trafododd y Pwyllgor y cais yn faith a gwnaed penderfyniad a gwahoddwyd yr Ymgeisydd a'r Swyddogion yn ôl i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Aelodau wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r cais a gofynnodd i'r Cyfreithiwr ddarllen penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu, fel sy'n dilyn:-

Daethpwyd â'r mater gerbron y Pwyllgor gan Adran Trwyddedu y Cyngor am adolygiad o Drwydded Gyrwyr Cerbyd Hacni drwy gyfleuster cyfarfod Teams.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu anerchiad i Aelodau a'u hysbysu yr honnwyd fod y deiliad trwydded wedi cyflawni trosedd A.18 o Niwed Corfforol Dybryd (heb fwriad). Esboniodd y Swyddog y cafodd yr wybodaeth ei datgelu gan Uned Datgelu Heddlu Gwent ac y cafodd yr Ymgeisydd ei arestio ar 5 Medi 2020.

Amgylchiadau'r drosedd oedd bod yr Ymgeisydd wedi casglu teithiwr a phan stopiodd y car i'r teithiwr adael, roedd wedi gadael y drws ar agor ac yr ymosodwyd wedyn ar yr Ymgeisydd. Roedd yr Ymgeisydd wedi taro'r teithiwr gan achosi anaf pen iddo. Ni chymerodd yr heddlu unrhyw weithredu pellach ar y mater.

Dywedodd yr Ymgeisydd, mewn datganiad lliniarol, yr ymosodwyd arno ac mai dim ond ceisio amddiffyn ei hunan oedd. Dywedodd mai dim ond £4.35 oedd cost y daith ac esboniodd fod aelod o'i deulu yn dioddef gyda phroblemau iechyd meddwl, ac mai dyna'r

rheswm pam na fedrid cysylltu ag ef. Esboniodd y rhesymau pam fod brês olwyn yn y cerbyd.

Dywedodd y Swyddog Trwyddedu hefyd fod yr Ymgeisydd wedi dod gerbron y Pwyllgor yng nghyswllt honiad am ymddygiad sarhaus yn 2015, derbyniwyd cwyn arall yn 2016 a 2017. Cadarnhaodd y Swyddog hefyd fod yr Ymgeisydd wedi dweud wrth yr Heddlu fod ganddo frês olwyn yn y car ar gyfer diogeliad, yn gwrthddweud yr hyn a ddwedodd yr Ymgeisydd wrth y panel.

Esboniodd y Swyddog Trwyddedu i aelodau y gallent naill ai:

- Peidio cymryd unrhyw gamau gweithredu;
- Peidio cymryd unrhyw gamau gweithredu a rhoi rhybudd yng nghyswllt,
- Diddymu'r drwydded.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ofalus i'r sylwadau a wnaed iddynt gan y swyddog trwyddedu ac yn rhoi ystyriaeth i faterion a gynhwysir o fewn llyfryn gwybodaeth ac arweiniad y Cyngor, yn cynnwys amodau yn ymwneud â Thrwyddedau Gyrwyr Cerbyd Hacni a Thrwyddedau Cerbyd Hur Preifat. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'r Ymgeisydd yn berson addas a chywir i barhau i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni ac mae'r Pwyllgor yn diddymu'r drwydded yn dibynnu ar baragraff 3.2 y llyfryn gwybodaeth ac arweiniad sy'n dweud 'lle mae amheuaeth am ffitrwydd ymgeisydd neu ddeiliad trwydded, bydd y Cyngor yn defnyddio dull rhagofalus a gall wrthod cais neu ddiddymu'r drwydded, yn dibynnu ar yr achos.'

Ni ddychwelodd yr Ymgeisydd i'r cyfarfod drwy Teams a felly cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu y bydd yn awr yn anfon e-bost i'r Ymgeisydd gyda'r penderfyniad ar ran y Pwyllgor.

Mewn pleidlais a gymerwyd,

PENDERFYNWYD yn unfrydol i ddiddymu Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni y deiliad trwydded.